COFNODION O GYFARFOD MISOL A GYNHALIWYD Nos Fawrth 12fed o RAGFYR 2017 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Goffa Felin Fach.

PRESENNOL
Cynghorwyr; Lynford Thomas, Cadeirydd; Lyn Williams; Haf Hughes; Hywel Ifans; Harri Williams; Daniel Evans; Gerwyn Owen; Alan Henson; Glyn Davies; Owen Llywelyn ac Eleri Lewis.

1.YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Oddiwrth y Cynghorwr. Johnny Davies.

2. PERSONNOL
Gwnaeth y Cadeirydd groesawi Mrs Eleri Lewis, Clerc wedi penodi i'r cyfarfod.

3. DATGELU BUDDUANAU PERSONOL.
Dim

4. CADARNHAU COFNODION.
Cadarnhawyd cofnodion mîs diwethaf yn gywir ar gynnigiad Cyng. Harri Williams, ac eilio gan Cyng. Lyn Williams . a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod arbenig 22/11/2017 ar gynigiad Cyng.Owen Llywelyn ac eilio gan Cyng. Harri Williams.

5. MATERION YN CODI
Dim.

6. ADRODDIAD CYNGHORYDD SIR.
Cafwyd manylion manwl o'i ddyddiadur gan Cyng. Lynford Thomas ; yn bennaf trafod cyllideb y Cyngor Sir am 2018-19

7. GOHEBIAETH.
Trafodwyd cynnwys y canlynol;

i. Cyngor Sir; Cyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir a Chynghorau Cymuned 9fed o Ionawr 2018 yn Ysgol Bro Pedr Llambed. Penodwyd Cyng. Haf Hughes ac Eleri Lewis i fynychu'r cyfarfod (bydd Cyng.Lynford Thomas yn bresennol fel Cynhorydd Sir)
ii. GIG Cymru – Rhwydwaith Trawma Mawr i Dde Gorllewin Cymru a De Powys; angen barn pawb er mwyn gwneud y penderfyniad iawn i bobl yr ardal. Rhagor o wybodaeth ar wefan,- www.iechudcyhoedduscymru.org/ymgynghoriadtrawmamawr. **Penderfynwyd** cefnogi'r cais am gydweithrediad.
iii. Cyngor Sir ynghlyn a Praesept 2018-19. Trafodwyd y Gyllideb oedd wedi ei pharatoi o Medi 2017 hyd diwedd Mawrth 2018 gan ddeall byd tua £4,000.00 mewn llaw. Felly mae'r Cynghorwyr yn rhagweld bydd gofyn am yr un faint a llynedd yn ddigonol.**Penderfynwyd** ar gynnigiad Cyng. Glyn Davies ac eilio gan Cyng. Harri Williams i 'wneud cais am yr un faint a llynedd sef £9,950, fydd yn £15.008 yr anned yn Band 'D' yn ol Sylfaen Treth y Cyngor o 662.95.

Ceisiadau yn gofyn am gymorth ariannol; - penderfynu faint i roddi yn cyfarfod cyllid nesaf.

iv. Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen 2018.
v. Cymorth ar Bopeth.

"Derbyn" y canlynol;

vi. Cylch-lythyr Noah's Ark, Ysbyty Plant.

vii. Llywodraeth Cymru ynghlyn a Gwariant tuag at elusenau (Section 137 Local Government Act 1972) bod yr uchafswm wedi codi o £7.57 i £7.86 yr etholwr.

9. CYLLID

Penderfynwyd gwneud y taliadau canlynol;

Eisteddfod Rhyngwlwdol Llangollen	£25.00
'First Responder Vehicle Appeal' Aberaeron`	£250.00
Cyngor ar Bopeth	£35.00
Cyngor Sir; Golau hanner nos – 5.00 y bore	£1283.75
Bryn Hughes, Clerc ag ati	£650.13

Derbynwyd ail rhan o Praesept oddiwrth y Cyngor Sir £3,316.67

10. CYNLLUNIO

Ceisiadau wedi cael caniatad gan y Cyngor Sir;
Dim

Ceisiadau o'r Cyngor Sir yn gofyn am sylwadau (os oes)
Dim

Cais wedi ei wrthod
Dim

11. SWYDD CLERC.

Gwnaeth y Cadeirydd, Cyng.Lynford Thomas groesawi Mrs Eleri Lewis Clerc, gan ddymuno'n dda iddi.
Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc sydd yn ymddeol am oes o wasanaeth i'r Cyngor; eiliodd Cyng. Glyn Davies. Cyflwynwyd cerdyn o ddiolch wedi ei llofnodi gan pob Cynghorydd i Bryn, a chafodd anrheg arbennig o lun adeuladau amlwg Dyffryn Areon wedi ei baento gan Mrs Fanw Davies Aberaeron (Tangraig)

12. UNRHYW FATER ARALL

i. Ceisiodd Cyng.Gerwyn Owen gael gwybodaeth sut bod disgyblion Ysgol Arbenig Cribyn yn mynd i Neuadd Dihewyd; - 'doedd dim ateb! Ond mae Cyng. Lynford Thomas yn mynd i fonio'r awdurdodau priodol.
ii. Trefnwyd bod Mrs Eleri Lewis, Clerc yn cysylltu a'r Banc (Lloyds) fel bod Cynghorwyr Lynford Thomas, Hywel Ifans, Alan Henson, Owen Llywelyn a'r Clerc Eleri Lewis y gymwys i arwyddo sieciau. (ychwanegol at y gweddill o'r Cynghorwyr)